# PWYLLGOR ARCHWILIO 18-07-13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Eddie Dogan, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Aeron M. Jones, Charles W. Jones, Sion W. Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau)

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion M. Evans (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi, Roland Thomas (Uwch Dechnegydd Cyllid – Cyfalaf a Rheolaeth), Hawis Jones (Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Nigel Griffiths (Arweinydd Asesiad Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru), Huw Lloyd Jones (Rheolwr Llywodraeth Leol Rhanbarth y Gogledd, Swyddfa Archwilio Cymru) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, Huw Edwards, John B. Hughes, John P. Roberts, Gethin G. Williams

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Trevor Edwards yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd John Pughe Roberts yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2013/14.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Ebrill 2013, fel rhai cywir.

## 5. DATGANIAD CYFRIFON 2012/13

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Adnoddau, Ddatganiad o’r Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 sy’n rhoddi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid nad yw'r cyfrifon drafft wedi eu harchwilio hyd yn hyn ac efallai y bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn y cyflwynir fersiwn terfynol i'r pwyllgor hwn ar 26 Medi 2013. Gorfodwyd ffurf a chynnwys sylfaenol y datganiadau dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae nifer o ofynion dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol sy'n seiliedig ar Gôd Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2012/13. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau'n dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w deall.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid y cyflwynwyd adroddiad syml a chryno ynglyn â chyfrifon 2012/13 i'r Cabinet ar 11 Mehefin 2013. 'Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol/rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol/llywodraethu.

Nododd y Pennaeth Cyllid mai'r Pwyllgor Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor a cyn 2009/10 bu'r pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad drafft o'r cyfrifon yn amodol ar archwiliad. Fodd bynnag, mae addasiadau 2010 i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn rhoddi'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft cyn 30 Mehefin 2013 i'r Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yng Nghyngor Gwynedd). Erbyn hyn, nid oes rhaid i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r datganiad ond fe'i cyflwynir i'r pwyllgor hwn er gwybodaeth ac ystyrir hynny'n ymarfer da.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ymhellach y byddai'r Datganiad o Gyfrifon ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun archwiliad blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn ardystiad ganddo ef ac ystyriaeth gan y pwyllgor Yn ogystal, bydd y cyfrifon ar gael i'w harolygu gan y cyhoedd am gyfnod o 20 diwrnod.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a'r Uwch Reolwr Cyllid eglurhad manwl am y gwahanol bolisiau cyfrifo, y gwahanol gyfrifon, datganiadau a'r nodiadau perthnasol. Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ar y cyfrifon ac ymatebodd y swyddogion iddynt.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid gyfrifiad gwerth asedau ac ymrwymiadau pensiwn y Cyngor fel cyflogwr, ac atgoffwyd aelodau y cyflwynir cyfrifon y Gronfa Bensiwn, fel rhan o'r adroddiad blynyddol, i holl gyflogwyr y gronfa mewn Cyfarfod Blynyddol ar 25 Gorffennaf 2013.

Diolchodd yr Aelod Cabinet Adnoddau i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) 2012/13.**

**6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012/13**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012/13 er cymeradwyaeth y pwyllgor.

Eglurodd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010 yn datgan bod rhaid i'r corff llywodraeth leol gynnal adolygiad o leiaf unwaith y flwyddyn ar effeithiolrwydd ei system o reoli mewnol a rhaid cynnwys datganiad ar reoli mewnol, a baratowyd yn ôl arferion priodol, lle bo'n berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n rhwym arno i'w gyhoeddi. Mae'r SORP a Fframwaith CIPFA/SOLACE yn nodi bod rhaid i awdurdodau lleol Cymru gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ehangach, sy'n ymgorffori'r Datganiad Rheolaeth Fewnol. Pwrpas y datganiad yw datgan bod yr awdurdod wedi ystyried ei fframwaith lywodraethu ac adrodd bod hwn yn parhau'n ddigonol ac yn parhau i weithredu'n effeithiol, ac i arddangos bod cynlluniau yn eu lle i weithredu lle gwelir unrhyw wendidau yn y trefniadau llywodraethu.

Nododd bod proffil y datganiad yn cynyddu'n barhaus ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad cenedlaethol o drefniadau llywodraethu, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygiad y datganiad. Bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd ar ganlyniad yr astudiaeth i'r pwyllgor hwn. Rhoddodd eglurhad manwl am yr hyn a ddisgwylir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol bod tystiolaeth yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn cyhoeddi'r ddogfen derfynol. Oherwydd rôl allweddol y pwyllgor yng nghyd-destun fframwaith lywodraethu'r Cyngor, mae gan y pwyllgor swyddogaeth i herio cynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft, cyn argymell bod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo. Nododd bod cymal ychwanegol yn y Datganiad eleni yn deillio o ofynion Atodiad Rhagfyr 2012, sy'n cyfeirio'n benodol at rôl y Pwyllgor Archwilio yn y broses. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau "*Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlynol* ***yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu*** *gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau* ***yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu***"

Mewn perthynas â'r Fframwaith Lywodraethu, tynnodd sylw at Atodiad Rhagfyr 2012 i ganllawiau CIPFA/SOLACE parthed elfennau allweddol y systemau a phrosesau sy'n rhan o lywodraethu awdurdod. Cymeradwywyd Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor gan Fwrdd y Cyngor ar 5 Ebrill 2011 ac mae'n seiliedig ar y chwech egwyddor craidd yn Fframwaith CIPFA/SOLACE.

Parthed adolygiad o effeithlonrwydd y Fframwaith Lywodraethu, nododd y swyddog bod angen i'r Pwyllgor Archwilio gael sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir yn Rhan 3 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gweithio fel y dylent. Er mwyn derbyn y sicrwydd hwn, bydd angen i'r pwyllgor ystyried os yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn Rhan 4 o'r Datganiad yn ddigonol i ddod i farn am y trefniadau llywodraethu hyn. Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Drafft, yn amodol ar rhai mân addasiadau, gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 26 Mehefin 2013. Ar gyfer 2013/14, bwriedir i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, gyfarfod o leiaf yn chwarterol drwy'r flwyddyn ac efallai yn fwy aml ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethu, er mwyn ystyried unrhyw waith sydd wedi ei gynnal yn y cyfnod blaenorol i asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. Bydd y Grŵp yn adrodd wedyn i'r Pwyllgor Archwilio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13 a’r cyfnod ers dyddiad y fantolen.**

## 7. COFRESTR O ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar gofrestr o adroddiadau archwilio allanol.

Adroddodd y Rheolwr Gwella Perfformiad ac Effeithlonrwydd mai un o ofynion Mesur Llywodraeth Cymru yw bod pob adroddiad archwilio allanol i ddod i sylw’r pwyllgor hwn, gyda’r pwyllgor yn cymeradwyo buddion gweithredu’r argymhellion a nodir gan yr archwilwyr allanol. Bydd hyn yn galluogi’r pwyllgor i gadw trosolwg ar weithredu argymhellion yr adroddiadau a rhoddi crynodeb byr i’r Cabinet. Rhoddodd fanylion am enghreifftiau o adroddiadau archwilio allanol.

Nododd y gallai adroddiadau fod yn llwyr berthnasol i Wynedd neu’n adroddiadau cenedlaethol sydd â chyfeiriad ynddynt at Gyngor Gwynedd. Yn ychwanegol at hyn, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio i’r Adran Strategol a Gwella gadw cofrestr corfforaethol o adroddiadau archwilio allanol, a’i chyflwyno i’r pwyllgor bob chwe mis. Cyfeiriodd at y Gofrestr o Adroddiadau Archwilwyr Allanol ar wasanaethau’r Cyngor ers Ionawr 2010, sy’n gyfuniad o adroddiadau blynyddol, achlysurol a chenedlaethol lle y cyfeirir at Gyngor Gwynedd. Tynnodd sylw at yr archwiliadau newydd a amlygwyd mewn melyn yn yr atodiad i’r adroddiad a ddaeth i sylw’r Adran ers cyflwyno’r gofrestr i’r pwyllgor hwn ar 14 Chwefror 2013.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y Gofrestr o Adroddiadau Archwilio Allanol.**

## 8. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL

Croesawodd y Cadeirydd, Huw Lloyd Jones, Rheolwr Llywodraeth Leol Rhanbarth y Gogledd, Swyddfa Archwilio Cymru i’r cyfarfod.

Diolchodd y Rheolwr am y croeso a chyflwynodd yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan gyfeirio’n benodol at dair adran i’r adroddiad sef –

a) Asesiad o berfformiad y Cyngor yn 2011/12.
b) Trefniadau ar gyfer hunan-arfarnu perfformiad 2011/12
c) Trefniadau o ran cynllunio ar gyfer gwelliant yn 2012/13

Nododd mai prif gyfranwyr at yr asesiad perfformiad yw –

- Adroddiad y Cyngor ar berfformiad 2011/12
- Barn SAC a gwaith ar wasanaethau budd-daliadau a digartrefedd
- AGGCC – gofal cymdeithasol
- Estyn – plant a phobl ifanc
- Y Comisiynydd Iaith

Cyfeiriodd at ganfyddiadau’r asesiad perfformiad fel a ganlyn –
a) Bod y perfformiad yn dda ar y cyfan gyda 71.4% o ddangosyddion statudol ac allweddol wedi gwella neu heb newid a bod 65.8% yn well na chyfartaledd Cymru.

b) Pobl bregus.
'Roedd 24.9% o bob 1,000 mewn cartrefi gofal o'i gymharu â 26.7% y llynedd. 'Roedd y ganran yn gwella ond yn waeth na chyfartaledd Cymru ond mae targed i gyrraedd cyfartaledd Cymru mewn dwy flynedd. Adolygwyd 69.6% o gynlluniau gofal pobl hŷn o'i gymharu â 62.7% y llynedd. 'Roedd y ganran yn gwella ond yn is na chyfartaledd Cymru ond y bwriad yw cyrraedd cyfartaledd Cymru erbyn diwedd y flwyddyn.

Nododd mai casgliadau'r asesiad perfformiad yw bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn y rhan fwyaf o'i feysydd â blaenoriaeth.

Mewn perthynas â hunanarfarniad o berfformiad 2011/12, nododd y sylwadau canlynol –

- AGGCC – adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr yn ddadansoddiad cywir o berfformiad y gwasanaeth.
- Estyn – hunanarfarniad cyn yr arolygiad yn un cadarn ond –
- Yn dibynnu'n ormodol ar ddangosyddion perfformiad a chynnydd ar brosiectau.
- Diffyg dadansoddiad ansoddol parthed defnyddwyr gwasanaethau, paneli ac arolygon dinasyddion, craffu, adroddiadau arolygwyr ac archwilwyr
- Diffyg cysondeb o ran darparu data gwaelodlin a mesur deilliannau ond atebolrwydd aelodau'r Cabinet, Paneli Cyflawni a Gwella, Trefniadau Craffu a Ffordd Gwynedd.

Nododd mai casgliadau'r hunanarfarniad yw y gallai'r trefniadau llywodraethu newydd gefnogi diwylliant hunanarfarnu ond ni welwyd hyn yn llawn eto yn yr hunanasesiad blynyddol.

Cyfeiriodd at ganfyddiadau cynllunio'r gwelliannau am 2012/13. Nododd bod Cynllun Gwella 2012/13 yn cyfateb â gofynion y Mesur ac 'roedd yr arweinyddiaeth a'r cynllunio ariannol yn gryf, ond gallai'r cynllun fod yn fwy eglur.

Nododd mai casgliadau cynllunio'r gwelliannau yw bod y trefniadau cynllunio ariannol a gwasanaethau'n gadarn ar y cyfan, ond nid yw rhai cynlluniau busnes lefel uchel yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ac nid yw'r cyhoedd yn cael gwybodaeth glir amdanynt.

Prif gasgliadau'r adroddiad yw bod y Cyngor yn rheoli ei raglen gwella yn dda ond nid yw'r adroddiadau ar berfformiad mor glir a chynhwysfawr ag y gallent fod.

Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ac ymatebodd y Rheolwr iddynt.

Diolchwyd i'r Rheolwr am y cyflwyniad.

**9. TREFNIADAU LLYWODRAETHU – ADOLYGIAD O HUNANASESIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR**

Croesawodd y Cadeirydd, Nigel Griffiths, Arweinydd Asesiad Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod.

Diolchodd yr Arweinydd am y croeso a chyflwynodd adroddiad ar y Trefniadau Llywodraethu. Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol ers 2010/11 a chynnal adolygiad o'i fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r trefniadau llywodraethu o fewn y Cyngor er mwyn cyflawni dyletswyddau dan Fesur Llywodraeth Leol. Nododd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar roddi sicrwydd ynglyn â'r hunanasesiad ac yn awgrymu gwelliannau i'r Cyngor ar gyfer adolygiad y Cyngor o'i fframwaith llywodraethu yn 2013/14.

Manylodd ar gryfderau a gwendidau'r adolygiad. Nododd mai casgliad cyffredinol yr adolygiad yw nad oes perchenogaeth corfforaethol o hunanasesiad blynyddol y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ac nid oes trefniadau cadarn ar waith ar gyfer craffu arno a'i herio.

Nododd mai'r camau nesaf fydd –
a) Coladu'r canfyddiadau ar gyfer pob Cyngor a'u defnyddio i lunio adroddiad cenedlaethol sy'n edrych ar dueddiadau a themâu cyffredin.
b) Cyhoeddi Llythyr Asesiad Gwella 1 Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf a fydd yn cynnwys crynodeb byr o'r canfyddiadau a'r cynigion ar gyfer gwella.

Codwyd cwestiynau gan yr aelodau ac ymatebodd yr Arweinydd Asesiad Perfformiad iddynt.

Mewn ymateb i rhai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Arweinydd Asesiad Perfformiad, cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg fod trefniadau Cyngor Gwynedd yn debyg i sawl Cyngor arall, ond nad yw trefniadau'r Cyngor ymysg yr ymarfer gorau ac 'roedd yn croesawu rhai o'r agweddau yn yr adroddiad sydd yn amlygu fod angen ymrwymiad corfforaethol er mwyn gwella.

Cymerodd yr Uwch Reolwr y cyfle i atgoffa'r Pwyllgor bod Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu bellach wedi ei sefydlu, fel y cyfeiriwyd ato yn Eitem 6, a bydd hwn yn rhoi cyfle i'r Cyngor i wella ei drefniadau i gynnal hunan-asesiad o'i drefniadau llywodraethu. Er bod angen un datganiad llywodraethu blynyddol, nid yw hynny'n golygu mai unwaith y flwyddyn yn unig y dylid cynnal yr hunan-asesiad - dylai fod yn broses parhaus trwy'r flwyddyn.

Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr ei fod yn bwysig fod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn adborth rheolaidd gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, ac yn gofyn amdano os nad yw'n cael ei dderbyn.

Diolchwyd i'r Arweinydd am y cyflwyniad.

## 10. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol bod y Côd Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r Safon Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried os yw trefniadau rheolaeth ariannol fewnol y Cyngor yn ddigonol. Gan bod archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol, cwblheir asesiad blynyddol o'i berfformiad.

Yn dilyn cwblhau'r asesiad, 'roedd yr Archwiliwr Allanol o'r farn bod gan y Cyngor wasanaeth archwilio mewnol effeithiol sy'n cydymffurfio â'r rhan fwyaf o agweddau safonau Côd Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA.

Nodwyd eto eleni bod gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (sef yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg) rai cyfrifoldebau gweithredol sy'n dechnegol anghyson gyda'r safon annibyniaeth, ond, wedi trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid, bod yr Archwiliwr Allanol yn deall nad yw'r Cyngor am newid y strwythur.

'Roedd y Pennaeth Cyllid yn croesawu'r adroddiad calonogol. Mewn perthynas â'r safon annibyniaeth, nododd bod hwn yn risg oedd yr awdurdod wedi ei dderbyn ers blynyddoedd ac 'roedd yr archwiliwr allanol erbyn hyn yn derbyn y sefyllfa.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2013 i ystyried pump archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2013 sef –
a) Telerau Contractau – Gwiriadau DBS
b) Gwiriadau DBS Staff
c) Cyfarpar gan gyn-aelodau
ch) Rheoli Newid i Systemau Technoleg Gwybodaeth
d) Prosesu Data Cyflenwyr Ynni

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Cydnabu'r Uwch Reolwr Archwilio a Risg i'r cyfarfod fod yn un buddiol iawn ac yn fodd o roddi cyfle i drafod yr archwiliadau a gwyntyllu'r camau a roddwyd ar waith i gryfhau rheolaethau. Nododd i'r dyfodol y byddai'n bosibl ehangu rôl y Gweithgor i ystyried archwiliadau allanol yn ogystal, ble roedd gwendidau wedi eu hadnabod.

**PENDERFYNWYD**
**a) Bod gwaith y Gweithgor i barhau a bod y canlynol i wasanaethu arno y tro nesaf -**
**Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cynghorwyr Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.**
**b) Yn deillio o'r archwiliad cyfarpar gan gyn-aelodau, pwysleisio'r angen i bob aelod dderbyn hyfforddiant Diogelu Gwybodaeth a gwneud cais am sicrwydd bod hyn wedi digwydd.**

## 12. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2013**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2013. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod, cyfeiriodd y swyddog at -

- 12 o adroddiadau am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 adroddiadau eraill (memoranda a.y.)
- 3 archwiliadau dilyniant

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys tri adroddiad drafft sydd wedi ei ryddhau a 15 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol**

Nododd aelod i gwmni allanol redeg Hafan Pwllheli ar un adeg gyda'r Cyngor y derbyn incwm eithaf sylweddol. Erbyn hyn mae'r Cyngor ei hun yn rhedeg yr Hafan a nododd bod nifer y rhai sy'n ei ddefnyddio ynghyd â'r incwm wedi gostwng. Gofynnodd a ddylid ailystyried y sefyllfa ac allanoli rheolaeth yr Hafan unwaith yn rhagor.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod sefyllfa'r Hafan yn un eithaf dyrys. Cyfeiriodd at adroddiad monitro cyllideb 2013/14 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf 2013 a oedd yn nodi bod incwm yr Hafan yn isel. Pan benderfynwyd i fewnoli rheolaeth yr Hafan, rhybuddiwyd yr adeg hynny y byddai risg ynghlwm â hynny ond bu'r amseriad yn hynod anffodus. Ar ôl cwymp economaidd 2008, sylwyd bod gostyngiad yn nifer defnyddwyr yr angorfeydd. Gofynnwyd eisoes i'r Adran Economi a Chymuned am adolygiad o'r sefyllfa parthed y ffordd ymlaen a bwriad y Pennaeth yw adrodd yn yr hydref.

**Llwyddo'n Lleol**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed nifer y cwmniau a.y. a dderbyniodd grant a aeth yn fethdalwyr, nododd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod trefniadau monitro wedi derbyn sylw yn yr archwiliad.

**Trefniadau Bancio yn y Canolfannau Hamdden**

Cyfeiriodd aelod at archwiliad mewnol a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o drefniadau bancio rhai o'r canolfannau hamdden yng Ngwynedd ac iddo dderbyn categori barn C. Nododd yr adeg hynny bod cryn feirniadaeth ar drefniadau rheoli bancio Canolfan Hamdden Blaenau Ffestiniog ac ymddengys bod y sefyllfa yn parhau i fodoli.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y byddai'n bosibl i'r Gweithgor a sefydlwyd i ystyried yr archwiliadau a dderbyniodd gategori barn C, ystyried yr archwiliad hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Mehefin 2013 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2013/14**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2013/14.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 1 Gorffennaf 2013 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 80 |
| Crewyd papurau gwaith | 1 |
| Gwaith maes ar y gweill | 7 |
| Cwblhawyd gwaith maes | 2 |
| Disgwyl adolygiad | 4 |
| Adroddiad drafft | 4 |
| Adroddiad terfynol | 9 |
| **Cyfanswm** | **107** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2013/14 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun addasiadau unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2014. Nododd bod gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol ar ddiwedd chwarter 1 yn 8.4% ac allan o'r 107 archwiliad unigol, 'roedd 9 wedi eu rhyddhau'n derfynol erbyn diwedd y chwarter. Mae'r perfformiad felly yn is na'r proffil a osodwyd, sy'n achosi peth pryder, ond yn destun adolygiad parhaus er mwyn adfer y sefyllfa cyn diwedd y flwyddyn. 'Roedd colli adnoddau aelodau staff a.y. yn ddiweddar yn un ffactor am hyn. Nododd hefyd bod angen ailedrych ar yr amser a dreulir ar rhai o'r archwiliadau.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, nododd y swyddog bod un addasiad yn unig i'r cynllun sef ychwanegiad i'r archwiliad o'r Grant Blas am Oes.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2013/14.**

## 14. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg y cymeradwywyd Cylch Gorchwyl ar gyfer Archwilio Mewnol, a baratowyd yn unol â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006, gan y Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012

Nododd y daeth Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i rym ar 1 Ebrill 2013, gan ddisodli Côd Ymarfer CIPFA. Un o ofynion y Safonau Archwilio Mewnol newydd yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol yn hytrach na "Cylch Gorchwyl". Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol. Mae'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol yn nodi bod cymhariaeth

rhwng y Cylch Gorchwyl sy'n ofynnol dan Côd 2006 a Siarter Archwilio Mewnol yn dangos y gwahaniaethau canlynol yn unig –
a) 'Roedd y Cylch Gorchwyl yn nodi cyfraniad archwilio mewnol i'r adolygiad o effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli gan ei wneud yn angenrheidiol, a galluogi'r Pennaeth Archwilio Mewnol i gyflwyno barn archwilio blynyddol.
b) Mae'r Safonau yn bennaf yn gofyn am yr un cynnwys ac yn y Cylch Gorchwyl ar wahân i rhai pwyntiau penodol a nodir yn y gofyniad sector cyhoeddus "PSIAS 1000". Rhoddodd fanylion am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol – hyn yn ôl y Safonau a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan CIPFA.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.**

Ar derfyn y cyfarfod, cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith mai hwn fydd cyfarfod olaf o'r Pwyllgor hwn i Gwyn Parry Williams, Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu, gan y bydd yn ymddeol diwedd y mis hwn. Diolchodd iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd a dymunodd ymddeoliad hapus iddo.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.10pm